CYNGOR DINAS BANGOR
CITY COUNCIL

**CYNGOR DINAS BANGOR**
**TELERAU AC AMODAU LLOGI LLEOLIAD CYMUNEDOL**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn weithredol ar gyfer llogi unrhyw ystafell, neuadd, lle cyfarfod, cyfleuster cymunedol, man awyr agored, neu leoliad a reolir gan Gyngor Dinas Bangor ("y Cyngor").

Drwy gyflwyno ffurflen archeb a derbyn archeb, mae'r Llogwr yn cytuno i gydymffurfio â'r Telrau ac Amodau hyn.

## Diffiniadau

**Y Cyngor** yw Cyngor Dinas Bangor a'i swyddogion awdurdodedig.

**Y Llogwr** yw'r unigolyn, y sefydliad, clwb, cymdeithas, elusen, busnes, neu grŵp sy'n archebu'r lle ac yn derbyn y Telerau a'r Amodau yma.

**Y Lleoliad** yw'r adeiladau sy'n cael eu llogi sydd o dan berchnogaeth neu reolaeth y Cyngor.

---

## 1. Ceisiadau ac Archebion

**1.1** Dim ond yn dilyn derbyn ffurflen archebu wedi'i llenwi ac unrhyw daliad neu flaendal angenrheidiol y bydd archebion yn cael eu cadarnhau.
**1.2** Ystyrir mai'r sawl sy'n llofnodi'r ffurflen archebu yw'r Llogwr ac ef/hi fydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Telerau ac Amodau yma.
**1.3** Ni all archebion gael eu trosglwyddo, eu neilltuo neu eu his-osod heb ganiatâd ysgrifenedig gan y Cyngor ymlaen llaw.
**1.4** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw archeb heb roi rheswm.
**1.5** Dim ond ar gyfer y diben a nodwyd ar y ffurflen archeb y gall y Lleoliad gael ei ddefnyddio oni cafwyd cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor.
**1.6** Gall archebion hirdymor neu reolaidd gael eu hadolygu o bryd i'w gilydd a gallant ddod o dan drefniadau ar wahân.

---

## 2. Mynediad, Allweddi a Diogelwch

**2.1** Pan mae allweddi, ffobiau mynediad, codau larwm, neu drefniadau mynediad eraill yn cael eu darparu, y Llogwr sy'n gyfrifol am eu cadw'n ddiogel.
**2.2** Dylai'r Llogwr enwebu person cyfrifol a fydd yn bresennol drwy gydol adeg y llogi.
**2.3** Dylai'r person cyfrifol sicrhau bod y Lleoliad wedi ei gloi ai wacau ar ddiwedd y cyfnod llogi, lle'n briodol.

**2.4** Os oes unrhyw allweddi, ffobiau neu ddyfeisiau diogelwch yn cael eu colli, gall hyn arwain at daliadau i dalu am rai newydd, diweddaru diogelwch, a'r costau gweinyddol cysylltiedig.

---

**3. Ffioedd a Thaliadau**

**3.1** Bydd ffioedd llogi'r lleoliad yn cael eu pennu gan restr gymeradwyedig y Cyngor o ffioedd a thaliadau.
**3.2** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid ffioedd ar unrhyw adeg.
**3.3** Dylid talu yn unol â chadarnhad yr archeb a thelerau'r anfoneb.
**3.4** Gall methu â gwneud taliad pan mae'n ddyledus arwain at ganslo archebion yn y dyfodol.

---

**4. Polisi Canslo**

**4.1** Rhaid i logwyr sy'n dymuno canslo archeb hysbysu'r Cyngor mewn ysgrifen cyn gynted â phosibl.
**4.2** Gall canslaidau a wneir lai na saith diwrnod cyn y dyddiad archeb wynebu'r ffi lawn.
**4.3** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ganslo archebion o ganlyniad i argyfyngau, gofynion gweithredol, gwaith cynnal a chadw, tywydd garw, etholiadau, neu amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.
**4.4** Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd atebolrwydd y Cyngor wedi'i gyfyngu i ad-dalu unrhyw ffioedd a dalwyd yn barod.

---

**5. Niferoedd a Defnydd yr Adeilad**

**5.1** Ni ddylid mynd yn uwch na'r uchafswm o bobl mae'r lleoliad yn ei ddal.
**5.2** Dylai'r Llogwr sicrhau cydymffurfio â'r holl derfynau niferoedd, rheoliadau tân, amodau trwyddedu, a gofynion diogelwch.
**5.3** Rhaid cadw'r allanfeydd argyfwng, offer tân a llwybrau mynediad yn glir bob amser.
**5.4** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddod â digwyddiad i ben os yw'r terfynau niferoedd neu'r gofynion diogelwch yn cael eu torri.

---

**6. Yswiriant a Risg**

**6.1** Argymhellir yn gryf bod llogwyr yn cael Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus priodol.
**6.2** Gall fod angen i sefydliadau masnachol, trefnwyr digwyddiadau, a rhai gweithgareddau ddangos tystiolaeth o yswiriant cyn bod yr archeb yn cael ei chadarnhau.
**6.3** Ni ddylai'r Llogwr ymgymryd ag unrhyw weithgaredd a allai annilysu trefniadau yswiriant y Cyngor.
**6.4** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i osod amodau ychwanegol pan mae'r gweithgareddau'n golygu lefel uwch o risg.

---

**7. Difrod, Colled a Glanhau**

**7.1** Y Llogwr fydd yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod a achosir i:

- Adeiladau
- Gosodiadau a ffitiadau
- Dodrefn
- Offer
- Tiroedd
- Unryw eiddo i'r Cyngor

yn ystod cyfnod y llogi.

**7.2** Bydd y Llogwr yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod fel a ganlyn:

**7.3** Bydd cost trwsio, adnewyddu, glanhau, neu ailosod yn cael eu hadennill oddi wrth y Llogwr.

**7.4** Y Llogwr fydd yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod a achosir i'r lleoliad.

**7.5** Ni ddylid rhoi hoelion, sgriwiau, pinnau bawd, glud, Blu Tack, tâp neu unrhyw beth sy'n sownd yn y wal, nenfwd, llawr, dodrefn neu'r ffitiadau heb ganitâd ymlaen llaw.

**7.6** Ni ddylid defnyddio fflamau agored, canhwyllau, tân gwyllt, pyrotechnegau, peiriannau mwg, neu eitemau tebyg heb ganiatâd ysgrifenedig.

**7.7** Rhaid i'r Lleoliad gael ei adael mewn cyflwr glân, taclus, a diogel.

**7.8** Gellir codi ffioedd glanhau ychwanegol lle bo angen.

---

## 8. Iechyd a Diogelwch

**8.1** Dylai'r Llogwr gymryd camau rhesymol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles pawb sy'n mynychu.

**8.2** Dylai'r Llogwr gydymffurfio â phob deddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol.

**8.3** Dylai unrhyw ddamwain, anaf, digwyddiad peryglus, neu ddamwain fu bron â digwydd gael eu riportio i'r Cyngor cyn gynted â bo hynny'n ymarferol resymol.

**8.4** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i stopio unrhyw weithgaredd yr ystyrir yn anniogel.

---

## 9. Anaf i Bersonau a Difrod i Eiddo

**9.1** Ni fydd y Cyngor yn atebol am:

- Golled neu ladrad eiddo personol
- Difrod i eiddo personol
- Anaf i bersonau oni bo hynny wedi'i achosi gan esgelustod y Cyngor.

**9.2** Rhaid i'r Llogwr indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw hawliadau sy'n codi o ddefnydd y Llogwr o'r Lleoliad, ac eithrio pan mae hawliadau o'r fath yn deillio o esgeulustod y Cyngor.

---

## 10. Ymddygiad

**10.1** Y Llogwr fydd yn gyfrifol am ymddygiad pawb sy'n mynychu.

**10.2** Ni fydd ymddygiad afreolus, difrïol, bygythiol, anghyfreithlon, neu beryglus yn cael ei oddef.

**10.3** Gwaherddir gweithgareddau sy'n debygol o achosi niwsans, tarfu, neu dramgwydd i eiddo cyfagos neu ddefnyddwyr eraill y Lleoliad.

**10.4** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddod ag archeb i ben yn syth os yw'n ystyried bod yr ymddygiad yn annerbyniol.

**11. Hawlfraint, Trwyddedu ac Adloniant**

**11.1** Dylai'r Llogwr gael unryw drwyddedau, caniatâd, cydsyniad sydd eu hangen ar gyfer y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn ystod y cyfnod llogi.

**11.2** Dylai'r Llogwr gydymffurfio â phob deddfwriaeth hawlfraint sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth, perfformiadau, darlledu, recordiadau, a gweithiau gwarchodedig eraill.

**11.3** Cyfrifoldeb y Llogwr fydd unrhyw ffioedd sy'n daladwy i gyrff trwyddedu neu hawlfraint, oni cytunwyd fel arall.

**12. Cwynion**

**12.1** Dylai unrhyw gŵyn am y Lleoliad neu'r archeb gael ei hanfon mewn ysgrifen i Gyngor Dinas Bangor o fewn pedwar diwrnod ar ddeg i'r digwyddiad.

**12.2** Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid y Telerau a'r Amodau hyn o bryd i'w gilydd.


**<u>Manylion Cyswllt</u>**
**Cyngor Dinas Bangor**
**Ffordd Gwynedd,**
**Bangor, LL57 1DT**
**Ffôn: (01248) 352421**
**Ebost: bookings@bangorcitycouncil.gov.uk**
**Gwefan: www.bangorcitycouncil.com+**